The Fun Club at Ysgol Maes y Felin
Charity Number 1201378

Equal Opportunities Policy

We aim to provide equality of opportunity for all children whatever their age, ability, gender, race or background. We work to ensure that our expectations, attitudes, and practices do not prevent any child from reaching their potential.

We are strongly committed to positive action to remove/counter discrimination in all aspects of our work - in our practice as employers, in the way we work with other organisations, and in all our work with children, families and others.

We recognise that certain groups and individuals in our society can be discriminated against because of their race, colour, ethnic or national origin, nationality, religion or belief or lack of religion/belief, age, gender, physical, sensory or mental disability, marital or civil partnership status, pregnancy and maternity, social class, sexual orientation, gender reassignment, employment status, and if they are HIV positive.

The Club's policy aims to challenge discrimination in all areas of our organisation including employment, training, and admission to the Club and access to the resources, activities and facilities available. We aim to ensure that the Club reflects and meets the needs of the local community and incorporates equal opportunities into all areas of our work.

We aim to make sure that:

- Both the management committee and the staff try to ensure that the services they provide are accessible to everyone by making reasonable adjustments as necessary/appropriate. All play opportunities are inclusive and guided by the Playwork Principles - http://www.playwales.org.uk/login/uploaded/documents/Playwork%20Principles/playwork%20principles.pdf
- This policy will be actively promoted through our decision-making, employment practices, play opportunities and service provision.
- We will strive to monitor the policy's implementation and its effectiveness in line with changes in legislation and guidance.
- All aspects of our Club aim to reflect the diversity found within society.

The Fun Club at Ysgol Maes y Felin
Charity Number 1201378

Polisi Cyfle Cyfartal

Anelwn at roi cyfartaledd cyfle i bob plentyn, beth bynnag fo'u hoed, eu gallu, rhywedd, hil neu gefndir. Gweithiwn i sicrhau nad yw ein disgwyliadau, ein hagweddau na'n harferion yn rhwystro unrhyw blentyn rhag cyrraedd ei botensial**.**

Rydym yn gryf ein hymroddiad i weithredu cadarnhaol er mwyn cael gwared â/gwrthwynebu camwahaniaethu ym mhob agwedd ar ein gwaith – yn ein harferion fel cyflogwyr, yn y ffordd y byddwn yn cydweithio â chyfundrefnau eraill, ac yn ein holl waith gyda phlant, teuluoedd ac eraill.

Cydnabyddwn y cam-wahaniaethir yn erbyn grwpiau ac unigolion penodol yn ein cymdeithas oherwydd eu hil, lliw, tras ethnig neu genedlaethol, rhywedd, anabledd corfforol, synhwyraidd neu feddyliol, statws priodasol, oed, dosbarth cymdeithasol, cred grefyddol, ymlyniad rhywiol, statws parthed cyflogaeth, a ph'un a ydynt yn HIV gadarnhaol.

Anela polisi'r Clwb at herio camwahaniaethu ym mhob rhan o'n cyfundrefn, gan gynnwys meysydd cyflogaeth, hyfforddiant, mynediad i'r Clwb ac adnoddau, ac argaeledd gweithgareddau a chyfleusterau. Anelwn at sicrhau bod y Clwb yn adlewyrchu anghenion y gymuned leol, yn ateb yr anghenion hynny ac yn ymgorffori cyfleoedd cyfartal i bob maes o'n gwaith.

Anelwn at sicrhau:

- Bod y pwyllgor rheoli a'r staff yn ceisio sicrhau y gall pawb gyrchu'r gwasanaethau y maent yn eu cynnig drwy wneud addasiadau rhesymol fel y bo'n angenrheidiol/priodol. Mae'r holl gyfleoedd chwarae'n gynhwysol ac yn cael eu harwain gan yr Egwyddorion Gwaith Chwarae http://www.playwales.org.uk/login/uploaded/documents/Playwork%20Principles/playwork%20principles.pdf.
- Yr eir ati i hyrwyddo'r polisi hwn drwy ein prosesau penderfynu, ein harferion cyflogaeth, cyfleoedd chwarae a darpariaeth gwasanaeth.
- Yr ymdrechwn i fonitro'r modd y rhoddir y polisi ar waith, a'i effeithiolrwydd yn unol â newidiadau mewn deddfwriaeth a chanllawiau.
- Bod pob agwedd ar ein Clwb â'r nod o adlewyrchu'r amrywiadau a geir yn y gymdeithas gyfan.